


Brig y Goeden



Esgidiau Glas


ANGELA BULL



Esgidian Glas

ANGELA BULL

Lluniau gan Jacqui Thomas



DRAKE

Pennod 1



Eisteddai Lleucu a Mam yn y siop esgidiau. Roedd pentyrrau o esgidiau newydd o'u hamgylch.

“Pa rai wyt ti'n hoffi orau?” gofynnodd Mam.

Ochneidiodd Lleucu. Doedd hi ddim yn hoffi *'run* ohonyn nhw. Edrychai pob un *'run* fath. Gwelech chi gannoedd yn union *'run* fath wrth gerdded ar hyd y Stryd Fawr unrhyw ddiwrnod. Doedd Lleucu ddim eisiau bod yr un fath â phawb arall.



“Mae’n gas gen i’r holl esgidiau anniddorol yma,” meddai hi.

“Paid â bod fel yna, Lleucu,” meddai Mam. “Rhaid iti gael esgidiau newydd. Does gen ti ddim dewis.”

Edrychodd Lleucu o amgylch y siop drachefn, ac yn sydyn, gwelodd nhw!

Gwyddai ar unwaith mai dyma'r
esgidiau roedd hi eisiau. Glas oedden nhw
a sgleiniog, efo patrymau o flodau
bychain arnyn nhw, ac roedden nhw'n
hollol wahanol i'r esgidiau eraill yn y siop.



Arbennig! Dyna sut rai oedden nhw.
Cwbl arbennig!

Roedden nhw ar silff wydr, yn aros am
Lleucu.

“Ga i drio’r rhai glas yna?” gofynnodd yn awyddus i Mam.

Sgleiniau’r esgidiau glas ar ei thraed. Roedden nhw braidd yn dynn, ond doedd dim ots am hynny. Edrychent yn berffaith.




“Maen nhw braidd yn grand,” meddai Mam. “Rhywbeth ar gyfer pob dydd roeddwn i’n bwriadu ei brynu i ti.” Teimlodd fodiau traed Lleucu. “Wyt ti’n siŵr eu bod nhw’n ffitio?”



“Ydw! O, ydw!” meddai Lleucu. “Ga i eu gwisgo nhw i’r Ffair Nadolig?”
“Iawn,” meddai Mam.

Pennod 2



Roedd Ffair Nadolig yr ysgol y pnawn hwnnw. Gwasgodd y teulu i gyd, Hanna a Lleucu, Gwydion a Rhodri, Mam a Dad i mewn i'r car a gyrru i'r ysgol.

Parcion nhw ar y maes chwarae lle byddai Gwydion yn aml yn chwarae pêldroed amser cinio.


“Gôl!” gwaeddodd Gwydion, yn smalio cicio pêl.

Edrychodd Lleucu i lawr ar ei hen dreinyrs blêr o gyda'u careiau cochion, ac yna ar ei hesgidau glas prydferth ei hun. Teimlai fel tywysoges wrth gerdded i mewn i neuadd yr ysgol.

“Hei, Lleucu, mae d’esgidiau di’n wych!” galwodd ei ffrind, Anna.



Gwenodd a gwenodd Lleucu.
Cerddodd yn araf o amgylch y neuadd, yn
gofalu na fyddai neb yn sathru ar ei
thraed. Roedd yn wych teimlo mor
arbennig - hyd yn oed os *oedd* yr esgidiau
braidd yn dynn.




Ar un bwrdd roedd clamp o degan
meddal - ci. Roedd wedi cael ei wneud o
ffwr brown tywyll ac roedd rhuban coch
o amgylch ei wddw. Arhosodd y teulu i
gyd i edrych arno.

“Bendigedig!” meddai Lleucu.

“Mae Anti Siw yn gwneud y math yna o gi,” meddai Hanna.

Roedd Anti Siw yn cadw siop grefftau, ac roedd Hanna yn dotio at y pethau gwych y byddai hi'n eu gwneud i'w gwerthu yno.


“Rhaid dyfalu enw'r ci,” eglurodd athrawes a eisteddai wrth y bwrdd. “Os dewiswch chi'r enw iawn, chi fydd yn ei ennill. Dewiswch o'r rhestr hon.”



“Rho i gynnig ar Mot,” meddai Hanna.
“Betia i mai Pero ydi o,” meddai
Gwydion.

“Robin,” dewisodd Rhodri am ei fod rywbeth yn debyg i’w enw o.

“Does ’run ohonoch chi’n iawn,” meddai Lleucu. “Gelert ydi o. Fel y ci enwog yn yr hen stori. Dyna mae f’esgidiau newydd i’n ei ddweud!”



Chwarddodd Hanna a Gwydion a Rhodri. Hen stori ... esgidiau newydd? Sôn am lol!

Ond dyna syndod! Pan alwodd y Pennaeth enw'r enillwyr, roedd Lleucu wedi cael y wobr. Gelert *oedd* enw'r ci. Curodd pawb eu dwylo pan aeth Lleucu ymlaen i'w gasglu.


“Mae'n rhaid fod f'esgidiau newydd i'n dod â lwc i mi,” meddai hi.



Ond, er hynny, roedd hi'n falch o gael eu tynnu pan aeth hi adref. Roedden nhw wedi codi swigen ar ei bodyn. Penderfynodd Lleucu beidio â sôn dim wrth Mam. Efallai y byddai'r esgidiau newydd yn ffitio'n well y tro nesaf.




“Dim ond ar achlysuron arbennig y gwisga i nhw,” meddai wrth Hanna, wrth eu cadw yn y cwpwrdd.



Roedd yn syndod mor braf y teimlai ei hen dreinyrs diflas, pan roddodd nhw ar ei thraed yn lle'r esgidiau newydd!

Pennod 3



Yn fuan iawn digwyddodd rhywbeth arbennig arall. Aeth y teulu i gyd i bantomeim.

“Cei di wisgo dy esgidiau newydd,” meddai Hanna wrth Lleucu, pan oedden nhw’n paratoi i gychwyn.

“Iawn, dyna wna i,” meddai Lleucu.

Tynnodd nhw allan o’r cwpwrdd a’u rhoi am ei thraed. Roedden nhw’n teimlo bron yn iawn.

Mwynhaodd Lleucu y pantomeim yn fawr ac anghofiodd am ei hesgidiau. Pan ddaeth hanner amser daeth dewin ar y llwyfan.

“Pwy ddaw i fyny yma i roi help llaw imi?” gofynnodd.



Neidiodd y plant i gyd ar eu traed gan chwifio’u breichiau. Roedden nhw’n gobeithio cael eu dewis.

Edrychodd y dewin i lawr. Pwyntiodd
at Lleucu.

“Cei di ddod,” meddai.

Gwasgodd Lleucu ar hyd y rhes a
rhedodd i fyny ar y llwyfan.




“Pam mae Lleucu mor lwcus?”
cwynodd Gwydion.

“Oherwydd yr esgidiau glas yna mae'n
rhaid,” meddai Rhodri.



Gwnaeth y dewin i Lleucu sefyll yng nghanol y llwyfan. Yna chwifiodd ei hudlath. Dechreuodd dynnu pethau o'i phocedi, o'i llewys, a hyd yn oed o'i chlustiau.

Roedd yno hancesi lliwgar a rubanau, plu yn siffrwd a sribedi o fwclis disglair. Yn fuan, roedd pentyrrau ohonyn nhw o amgylch ei thraed.



Edrychodd y dewin i lawr a chwifiodd ei hudlath drachefn. Allan o'r esgidiau glas daeth dwy wyntyll las, anferth.

“Sut gwnaethoch chi hynna?”
gofynnodd Lleucu yn syn.



“Drwy hud a lledrith,” meddai’r dewin.
“Ond mae’r esgidiau yna sydd gen ti yn
rhywbeth arbennig. Dwi’n siŵr y dôn nhw
â llawer o lwc iti!”

Curodd pawb eu dwylo fel roedd
Lleucu yn mynd yn ôl i’w lle.




“Fedr esgidiau ddim dod â lwc,” meddai Hanna yn gall, fel roedden nhw’n mynd adref.

“Mae rhai Lleucu wedi gwneud,” mynnodd Gwydion. “Enillodd hi Gelert a chafodd helpu’r dewin.”

“Roedd hi’n gwisgo’i hesgidiau glas y ddau dro,” gwichiodd Rhodri.


“Felly mae’n rhaid eu bod nhw’n lwcus,” meddai Gwydion.

Ddywedodd Lleucu ddim byd. Gwnâi'r syniad iddi deimlo'n hanner cyffrous ond yn hanner ofnus hefyd. Hoffai ei hesgidiau ond doedd hi ddim yn siŵr oedd hi eisiau iddyn nhw fod yn rhai hud a lledrith. Teimlai hynny braidd yn beryglus. Yn fwy na dim, hoffai petaen nhw ddim yn brifo gymaint.



Cyn gynted ag y cyrhaeddod nhw adref, tynnodd nhw. Yna sleifiodd ddarn o blaster o gwprdd yr ystafell molchi a'i lapio o amgylch y swigen ar ei bodyn.

Roedd hi'n rhyfedd, ond y munud gorau o'r dydd i gyd oedd pan roddodd hi ei hen dreinyrs meddal am ei thraed.



Roedd hyd yn oed Mam fel petai'n meddwl fod ei hesgidiau glas yn lwcus. Clywodd Lleucu hi ar y ffôn yn sgwrsio efo Anti Siw.

“Y ci i ddechrau ac yna mynd ar y llwyfan,” meddai hi. “Sgwn i beth ddigwyddith i Lleucu nesa?”

Pennod 4



Beth ddigwyddodd nesa i Lleucu oedd i Anti Siw ofyn gâi hi weld ei hesgidiau newydd.

“Galwn ni yn y siop grefftau fory,” meddai Mam.

Felly bore trannoeth rhoddodd Lleucu yr esgidiau am ei thraed drachefn. Â'r plaster o amgylch ei bodyn, doedden nhw ddim yn teimlo'n rhy ddrwg.

Dwi'n meddwl eu bod nhw'n dechrau fy ffitio i, penderfynodd Lleucu.

Teimlai'n hapus iawn fel roedd hi'n cychwyn efo Mam a Hanna, Gwydion a Rhodri.

Roedd Anti Siw yn meddwl fod yr esgidiau yn fendigedig.

“Hoffwn i gael pâr fel yna,” meddai.
“Byddwn i'n eu llenwi efo blodau sych glas ac arian a'u hongian ar y wal.”

“Mae'n ddrwg gen i,” meddai Lleucu.
“Fi biau'r rhain.”



Ar hynny daeth gwraig i mewn i'r siop.
Roedd hi angen basged ci am fod ei gast
newydd gael cŵn bach.

“Rhywbeth efo digon o le,” meddai hi
wrth Anti Siw, “efo clustogau.”



Estynnodd Anti Siw nifer o fasedi.
Gwylodd Lleucu hi, gan feddwl tybed
oedd y cŵn bach yn debyg i Gelert.

“Dyma fy nith i, Lleucu,” meddai Anti Siw wrth y wraig. “Lleucu, dyma Mrs Roberts.”

Gwenodd Mrs Roberts ar Lleucu.

“Wyt ti’n hoffi cŵn?” gofynnodd.

“Ydw, ond dim ond un tegan meddal sydd gen i,” atebodd Lleucu.

“Rydw i’n chwilio am gartrefi i fy nghŵn bach,” eglurodd Mrs Roberts.

“Hoffet ti gael un?”




“Fi? Ci bach go iawn! O, Mam, ga i?”
crefodd Lleucu.

“Ie! Gawn ni? Gawn ni gi bach,
Mam?” crefodd Hanna a Gwydion a
Rhodri.



“Wel - ” cychwynnodd Mam. Yna gwenodd. “Iawn, mae Dad a fi wedi bod yn meddwl y byddai’n hwyl cael ci.”

“Diolch,” meddai Lleucu wrth Mrs Roberts a Mam. “Bydd yn ffrind i Gelert.”



Agorodd llygaid Rhodri yn fawr fel soseri.


“Gwn i pam rydan ni’n cael ci bach!” meddai. “Mae Lleucu yn gwisgo’i hesgidiau glas.”

“Gwych! Dowch ... awn ni i lawer o siopau!” meddai Gwydion.

Onnd roedd Lleucu'n dechrau teimlo'n ofnus. Efallai *fod* yr esgidiau yn lwcus. Roedd y tegan meddal, y ci bach go iawn, a'r cyfle i fynd ar y llwyfan i gyd yn bethau ffantastig. Ond byddai wedi bod yn well ac yn fwy diogel petaen nhw wedi digwydd mewn ffordd gyffredin, ac nid oherwydd pâr o esgidiau.



Roedd yr esgidiau yn dechrau brifo eto hefyd. Hoffai Lleucu petai hi'n medru eu tynnu. Ond dywedodd Mrs Roberts y caen nhw fynd i weld y cŵn bach, ac wrth gwrs, roedd Hanna a Gwydion a Rhodri yn dyheu am fynd.



Felly, gan wingo'i bysedd traed i geisio chwilio am le llacach, dilynodd Lleucu y lleill at gar Mrs Roberts.



Roedd y cŵn bach yn gorweddian ar draws ei gilydd ar fag ffa, yn bentwr o ffwr brown, meddal.

“O! Dyna debyg i Gelert Lleucu ydyn nhw!” meddai Hanna.

“Fedra i ddim eu gweld nhw’n iawn,” cwynodd Rhodri.

“Maen nhw bob amser yn swatio’n glòs at ei gilydd,” meddai Mrs Roberts.


“Sut medrwn ni ddewis un?”
gofynnodd Gwydion.

Y munud hwnnw gwingodd un ci bach
allan o’r pentwr a gwthio’i drwyn i law
Lleucu.



“Wel, dyna chi!” meddai Mrs Roberts.
“Mae’r ci bach wedi dy ddewis di. Cewch
chi o cyn gynted ag y bydd yn ddigon
mawr i adael ei fam. Dwi’n meddwl ’mod
i’n gwybod pwy fydd o’n ei hoffi orau.”

“Mi fydd o’n hoffi *pawb*,” meddai
Mam yn gyflym.



Ond roedd Gwydion a Rhodri yn
rhythu ar draed Lleucu.

“Yr esgidiau lwcus yna *eto*,” medden
nhw o dan eu gwynt.

Pennod 5



Wedi cyrraedd adref gwisgodd Lleucu ei hen dreinyrs, ond roedd yn rhaid iddi wisgo'r esgidiau glas i barti Nadolig Nain.

Fel arfer, byddai hi wrth ei bodd yn gwisgo ar gyfer parti. Y tro yma teimlai'n ddigalon. Nid yn unig roedd yr esgidiau yn brifo. Doedd hi ddim yn hoffi'r ffordd roedden nhw'n rheoli ei bywyd hi. Penderfynodd eu hanghofio pan gyrhaeddai dŷ Nain.

Byddai gêmau bob amser ym mharti Nadolig Nain. Math o helfa drysor oedd y gêm gyntaf.

Roedd pob math o bethau od, fel darn o sbageti, llwy bren, a band rwber wedi eu cuddio o amgylch yr ystafell eistedd. Y person cyntaf i gael hyd iddyn nhw oedd yn ennill y gêm.



Cychwynnodd Lleucu chwilio'n ofalus.
Petai hi'n meddwl am y gêm, fyddai dim
rhaid iddi boeni ynghylch ei hesgidiau.



Cafodd hyd i'r sbageti yn sownd ar
ffrâm llun, y llwy bren yn y potyn
planhigyn, y band rwber o amgylch dwrn
y drws, a'r pethau eraill i gyd.

“Wedi gorffen!” gwaeddodd.

“Naddo, erioed!” griddfannodd Hanna a Gwydion a Rhodri.

“Betia i na welaist ti'r sbageti,” meddai Gwydion.

“Do,” meddai Lleucu.

“Hanner y pethau rydw i wedi cael hyd iddyn nhw,” cwynodd Hanna.



“Ddylen ni ddim fod wedi gadael i Lleucu chwarae,” meddai Rhodri.

“Pam?” gofynnodd Anti Siw.

“Mae hi'n gwisgo'i hesgidiau glas, ac maen nhw bob amser yn ei gwneud hi'n lwcus,” eglurodd Rhodri.

“Felly dydi o ddim yn deg,” ychwanegodd Gwydion.



“Lol botes!” meddai Nain a rhoi'r wobr i Lleucu. Llygoden siocled gafodd hi.

Ond yn lle teimlo'n falch, daeth
deigryn i lygaid Lleucu.


Doedd Gwydion a Rhodri ddim yn
iawn. Doedd gan yr esgidiau glas ddim
i'w wneud â'r peth. Roedd hi wedi ennill y
wobr â'i llygaid barcud, nid ei thraed
dolurus druan - ond chreden nhw byth
hynny rŵan.




Yn sydyn roedd hi'n casáu ei hesgidiau
glas arbennig.

“Chwaraewn ni’r gêm gofio nesa,”
meddai Nain.

Dangosodd hambwrdd efo llawer o
bethau bychain arno. Syllodd pawb arno
am ddau funud. Yna gorchuddiodd Nain yr
hambwrdd a gwnaeth pawb restr o bopeth
allen nhw’i gofio.



Dydw i ddim yn mynd i ennill,
meddyliodd Lleucu. Felly wnaeth hi ddim
ymdrech o gwbl i gofio. Ysgrifennodd restr
o bethau hurt, amhosibl.



Eisteddai Anti Siw wrth ochr Lleucu.
Edrychodd dros ei hysgwydd yn syn.

“Am restr ryfedd!” sibrydodd.

“Dydw i ddim eisio ennill,” sibrydodd
Lleucu yn ôl.

“Ond pam?”



“Oherwydd f’esgidiau,” sibrydodd
Lleucu. “Pan fydda i’n eu gwisgo nhw,
mae pethau lwcus yn digwydd imi. Mae
hynna’n swnio’n braf, ond dydi o ddim.”

Aeth Lleucu ymlaen, “Enillais i’r helfa drysor heb help o gwbl a Gelert yn y Ffair Nadolig, ond mae pawb yn meddwl mai dim ond oherwydd ’mod i’n gwisgo f’esgidiau glas y ces i nhw. Maen nhw fel petaen nhw’n rheoli fy mywyd i.”




“Maen nhw’n dlws,” sibrydodd Anti Siw.

“Ydyn,” cytunodd Lleucu, “ond - maen nhw’n sobor o dynn.”

“Hei!” galwodd Dad. “Dyna ddigon o sibrwd.”

Yna dadorchuddiodd Nain yr hambwrdd. Roedd Lleucu yn falch mai hi ddaeth olaf.



“Hud yr esgidiau’n pylu?” pryfociodd Gwydion.


Ond amneidiodd Anti Siw ar Lleucu i ddod ati.

“Gawn ni ffeirio?” gofynnodd. “Os ca i dy esgidiau glas di i’w gwerthu yn y siop grefftau, pryna i bâr newydd sbon danlli iti.”

“O!” gwenodd Lleucu yn llawen. “Pâr o esgidiau newydd! Byddai hynny’n andros o lwcus!”

“Iawn!” meddai Anti Siw. “Dyna’r fargen!”

Fore trannoeth, eisteddai Lleucu ac Anti Siw yn y siop esgidiau. O’u cwmpas roedd pentyrrau o esgidiau newydd.



“Gwnes i ddau addurniad hyfryd drwy lenwi dy esgidiau di â blodau sych,” meddai Anti Siw. “Rŵan pa bâr o’r esgidiau yma ydi’r gorau gen ti?”

Llygadodd Lleucu yr esgidiau.
Edrychai'r cyfan yn arbennig, yn eu
ffordd eu hunain. Dim rhyfedd fod pawb
yn cerdded i fyny ac i lawr y Stryd Fawr
ynddyn nhw.

“Dewis di p’run bynnag wyt ti eisio,”
meddai Anti Siw.

Saethodd llaw Lleucu i lawr ar bâr o
esgidiau gwyrdd ag ymyl goch.

“Y rhain!” meddai hi’n llawen.



Am yr awdur

Pan oeddwn i'n eneth fach,
roedd ddrillad ac esgidiau yn
bethau anniddorol iawn.
Roeddwn i'n gwisgo esgidiau
brown efo botymau yn y
gaeaf a sandalau brown yn
yr haf. Chefais i erioed bâr
glas neu goch nes imi dyfu'n
fawr. Felly pan gefais ferch,
roeddwn i eisiau iddi gael
esgidiau tlws bob amser.



Unwaith, cawsom wahoddiad i barti teuluol
arbennig a gadewais iddi ddewis sandalau
sodlau uchel glas. Roedden nhw'n edrych yn
hyfryd iawn, ond roedden nhw'n sobor o
dynn. Wisgodd hi mohonyn nhw byth wedyn!

Rydw i'n byw yng nghefn gwlad Sir Efrog
ac wedi ysgrifennu llawer o lyfrau plant.

Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 12:

Pecyn A *Sami Sgrap* gan Carolyn Bear
Robin Woods a'i Ddynion Llon gan Michaela Morgan
Boris y Bochdew gan Pippa Goodhart
Esgidiau Glas gan Angela Bull
Y Datgelwr Celwyddau gan Susan Gates
Trip Traed Moch gan Michaela Morgan

Pecyn B *Yr Anrheg Ben-blwydd Ofnadwy* gan Angela Bull
Cranwen Grachaid gan Pippa Goodhart
Pasia'r Bêl, Tad-cu gan Debbie White
Tipyn o Boendod gan Michaela Morgan
Shelley Holmes Ditectif Di-ail gan Michaela Morgan
Dyma Drwbwl gan Tessa Krailing

Pecyn C *Ffasiwn Steil!* gan Michaela Morgan
Lwc Luc gan Paul Shipton
Ffontiuch 999! gan Sylvia Moody

Esgidiau Glas

Mae Lowri eisiau'r pâr o esgidiau
glas arbennig.

Ond ydyn nhw ychydig bach yn
RHY arbennig?



Brig y Goeden



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 12

ISBN 0-86174-482-9



9 780861 744824

ISBN 0-86174-482-9

DRAKE